| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd** |
| **DYDDIAD** | **18 Rhagfyr 2014** |
| **ENW** | **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – y Cynllun Adnau** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno'r Cynllun Adnau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus** |
| **ARGYMHELLIAD** | **A) Gofynnir i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Adran Rheoleiddio (Cyngor Gwynedd) a Phennaeth y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (Cyngor Sir Ynys Môn) i wneud man newidiadau i'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb rhwng y ddwy iaith.**<br><br>**B) Gofynnir i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd gymeradwyo'r Cynllun Adnau drafft, yn ddarostyngedig i fan newidiadau, ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn cydymffurfio a gofynion deddfwriaeth.**<br><br>**C) Gofynnir i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Adran Rheoleiddio (Cyngor Gwynedd) a Phennaeth y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (Cyngor Sir Ynys Môn) i gymryd y camau priodol yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad cyhoeddus am y Cynllun Adnau a dogfennau cysylltiol er mwyn cydymffurfio a gofynion deddfwriaeth**. |
| **AWDUR** | **Rheolwr Cynllunio (Polisi), Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn** |

**Cyflwyniad**

1. Mae Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).

Rhagnodir ffurf a chynnwys y CDLl gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, a nodir y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth ei baratoi. Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd wedi penderfynu cydweithio i baratoi CDLl ar y Cyd ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd (ac eithrio Parc Cenedlaethol Eryri) (Ardal y Cynllun).

2. Bydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cofio fod Hoff Strategaeth y Cynllun wedi ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod mis Mai a Mehefin 2013. Yn dilyn y cam hwnnw mae'n rhaid paratoi a chyhoeddi fersiwn Adnau o'r CDLl ar y Cyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Y Cynllun Adnau sydd angen sylw'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd heddiw.

3. Mae Atodiad 1 i'r adroddiad yma'n crynhoi beth mae'r Cynllun Adnau'n golygu i ardal y Cynllun. Ceir copi o Ddatganiad Ysgrifenedig y Cynllun Adnau yn Atodiad 2 a chopi o'r mapiau mewnosodiad fydd yn ffurfio rhan o Fapiau Cynigion y Cynllun yn Atodiad 3A i 3Ch.

4. Mae'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn dangos y bydd y Cynllun Adnau yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus am chwech wythnos statudol ym mis Chwefror/Mawrth 2015, ac yn dangos dyddiad mabwysiadu o fis Rhagfyr 2016. Penderfynwyd ymgynghori gyda Phwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn a Chabinet Cyngor Gwynedd cyn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd i'r Cynllun Adnau cyn cychwyn ar yr ymgynghoriad cyhoeddus.

5. Fe wnaeth Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn gefnogi rhyddhau'r Cynllun Adnau drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ei gyfarfod ar 2 Rhagfyr 2014, gan gynnwys polisi ychwanegol am lety pwrpasol i weithwyr adeiladu dros dro.

6. Ymgynghorir a Chabinet Cyngor Gwynedd am y Cynllun Adnau drafft ar 16 Rhagfyr 2014, sydd ar ôl dyddiad cyhoeddi'r adroddiad yma. Rhoddir adroddiad ar lafar i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ynglŷn ag ymateb y Cabinet

**Y Cynllun Adnau – ei ddatblygiad gyda rhanddeiliaid**

7. Mae'r Cynllun Adnau'n darparu fframwaith cynllunio defnydd tir cynaliadwy i hyrwyddo ac arwain gofynion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y ddau Awdurdod yn ystod y cyfnod o bymtheg mlynedd rhwng 2011 a 2026. Yn dilyn ei fabwysiadu (a ragwelir yn Rhagfyr 2016), bydd y Cynllun yn cael ei ddefnyddio i arwain a rheoli datblygiad a buddsoddiad yn ardal y Cynllun, gan ddarparu sail ar gyfer gwneud penderfyniadau cyson a phriodol ar geisiadau cynllunio. Pan gaiff y Cynllun ei fabwysiadu fe fydd yn disodli: Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd, Cynllun Fframwaith Gwynedd, Cynllun Lleol Ynys Môn, Cynllun Datblygu Unedol Môn (a gafodd ei stopio) a chyfres o Bolisïau Dros Dro sy'n weithredol yn Ynys Môn.

8. Mae'n rhaid i'r broses datblygu'r Cynllun gydnabod a bod yn gyson gydag amcanion corfforaethol y ddau Gyngor, a cheisio creu'r amgylchiadau priodol ar gyfer hwyluso a chyflawni'r amcanion hynny sydd â goblygiadau defnydd tir. Mae'r Cynllun yn chwarae rhan annatod o hyrwyddo gweithredoedd fydd yn gwireddu'r Cynlluniau Strategol ac mae ganddo berthynas agos gyda'r Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn. Er mwyn sicrhau bod strategaeth y Cynllun yn gyson gydag amcanion strategol y Cynllun fe gafwyd mewnbwn Grwpiau Strategol y Cynllun yn ystod y cyfnod yn arwain i fyny at gytundeb am gyfeiriad strategol y Cynllun.

9. Ers y cyfnod ymgynghori cyhoeddus am yr Hoff Strategaeth mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi bod yn trafod y sylwadau a dderbyniwyd gyda Phanel y CDLL ar y Cyd. Yn unol â'r Cytundeb Cyflawni mae'r Panel wedi bod yn gweithredu fel 'bwrdd seinio' gan ystyried a rhoi barn ar ddogfennau perthnasol.

10. Mae'r Uned wedi bod yn defnyddio'r dulliau canlynol hefyd i gael gwybodaeth, cael syniadau a chael barn:

- Cyfres o seminarau gyda Chynghorwyr;
- Seminar gyda chynrychiolwyr Cynghorau Cymuned;
- Cyfarfodydd, neu sgyrsiau o gwmpas bwrdd gyda swyddogion, e.e. Economi a Chymuned, Tai Strategol, Ysgolion, neu randdeiliaid allanol, e.e. Dwr Cymru; Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Cyfnewid e-byst gyda swyddogion neu randdeiliaid allanol.

11. Cyhoeddwyd 4ydd rhifyn o Newyddlen y CDLl ar y Cyd er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r broses a'r gwaith sy'n mynd ymlaen. Gellir eu gweld ar wefan y Cyngor yn:

http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?cat=7982&doc=29553&Language=2&p=1&c=1

Mae'r Newyddlen yn cael ei gyrru i gyrff ymgynghori penodol a chyffredin ac unigolion a mudiadau sydd wedi dangos diddordeb yn y Cynllun (tua 2,000 o gyfeiriadau).

**Y Cynllun Adnau – dylanwad yr asesiadau**

12. Cafodd datblygiad y Cynllun ei ddylanwadu gan nifer o asesiadau:

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) o'r Cynllun Adnau CDLl

13. Yn unol â Chyfarwyddeb Cynefinoedd y Comisiwn Ewropeaidd, cynhelir ymarfer sgrinio i sefydlu a yw'r Cynllun yn debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd o bwysigrwydd cadwraeth natur. Mae Atodiad 4 yn cynnwys casgliadau'r gwaith HRA. Caiff yr adroddiad llawn ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau adeg yr ymgynghori cyhoeddus.

Adroddiad Asesiad Cynaliadwyedd, sy'n cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol

14. Er bod yr Asesiad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol a pharatoi'r Cynllun yn brosesau ar wahân, mae'n hanfodol eu bod yn integreiddio'n dda. Mae angen i'r broses Asesiad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol lywio'r broses paratoi'r Cynllun er mwyn sicrhau bod y Cynllun a fabwysiedir yn un sy'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Noda canllawiau bod y broses Asesiad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol yn un ailadroddus. Yn unol â'r canllawiau, mae Asesiad Cynaliadwyedd yn profi'r Cynllun Adnau yn erbyn fframwaith yr Asesiad Cynaliadwyedd. Mae'n adeiladu ar waith asesu blaenorol yr Hoff Strategaeth 2013. Mae Atodiad 4 yn cynnwys crynodeb o'r gwaith. Caiff yr adroddiad amgylcheddol lawn ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau adeg yr ymgynghori cyhoeddus.

Asesiad Effaith Ieithyddol

15. Gall y system gynllunio gyfrannu i greu'r amodau cymdeithasol ac economaidd sy'n rhoi cyfle i bobl siarad Cymraeg. Fel yr Asesiad Cynaliadwyedd mae'r Asesiad Effaith Ieithyddol yn un ailadroddus a

gychwynnodd ar ddechrau'r broses o baratoi'r Cynllun. Mae'r Asesiad yn golygu dadansoddi ac ystyried goblygiadau data am yr iaith Gymraeg a'r cymunedau o sawl ffynhonnell er mwyn gwirio'r Strategaeth ac yna'r polisïau a'r dynodiadau. Yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 20 mae'r Asesiad yma'n bwydo i mewn i'r Asesiad Cynaliadwyedd. Bydd adroddiad am yr Asesiad Effaith Ieithyddol yn cofnodi casgliadau'r gwaith yn llawn gan nodi unrhyw newidiadau a gafodd eu hawgrymu er mwyn cyfoethogi'r polisïau. Mae Atodiad 4 yn cynnwys crynodeb o'r gwaith. Caiff yr adroddiad llawn ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau adeg yr ymgynghori cyhoeddus.

<u>Asesiad Cydraddoldeb</u>

16. Pwrpas yr asesiad yma yw asesu'r effeithiau tebygol neu wirioneddol polisïau ar bobl o ran, er enghraifft, anabledd, rhyw. Mae hyn yn cynnwys chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb yn ogystal ag adnabod ardrawiadau negatif neu niweidiol a'u tynnu allan neu eu lliniaru. Mae Atodiad 4 yn cynnwys casgliadau'r gwaith. Caiff yr adroddiad llawn ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau adeg yr ymgynghori cyhoeddus.

<u>Asesiad Effaith Iechyd</u>

17. Mae'r asesiad yma'n ffordd i asesu ardrawiadau'r strategaeth a'r polisïau ar iechyd yn ardal y Cynllun. Mae Atodiad 4 yn cynnwys casgliadau'r gwaith. Caiff yr adroddiad llawn ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau adeg yr ymgynghori cyhoeddus.

**Ffurf a chynnwys y Cynllun Adnau**

18. Bydd y Cynllun Adnau ymgynghori cyhoeddus mewn tri rhan, – y Datganiad Ysgrifenedig, Mapiau Cynigion a'r Mapiau Cyfyngiadau.

19. Rhennir y Datganiad Ysgrifenedig (gweler Atodiad 2) i wyth pennod:

| Pennod | |
|---|---|
| 1. | Crynodeb weithredol (i'w gwblhau ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus) |
| 2. | Cyflwyniad |
| 3. | Cyd-destun polisi (cenedlaethol, rhanbarthol a lleol) |
| 4. | Proffil gofodol a phrif faterion |
| 5. | Gweledigaeth ac amcanion strategol |

| | |
|---|---|
| 6. | Y strategaeth |
| 7. | Rheoli twf a datblygu |
| 8. | Monitro a gweithredu |

20. Bydd atodiadau yn cynnwys gwybodaeth sy’n ategol i brif gorff y Cynllun Adnau, a chyfeirir atynt drwy gydol y brif ddogfen fel y bo'n briodol. Bydd yna Restr Termau defnyddiol, a hefyd rhestr lawn o bapurau cefndir/cefnogol a baratowyd fel rhan o'r broses paratoi’r Cynllun. Mae'r papurau cefndir/cefnogol hyn yn cynnwys pynciau fel datblygu'r opsiwn twf tai, materion poblogaeth ac aelwydydd, tir cyflogaeth, tai fforddiadwy, manwerthu, cynhwysedd tirwedd, mwynau, gwastraff a llifogydd (nid yw’r rhestr yma’n un cynhwysfawr). Yn ychwanegol i hynny bydd atodiadau eraill yn rhoi rhestr o safleoedd gyda chaniatâd cynllunio sy’n bodoli ar gyfer unedau tai ar 1af Ebrill 2014 a rhestr o Ganllawiau Cynllunio Atodol.

21. Bydd y Mapiau Cynigion yn cynnwys map ar gyfer pob anheddle gaiff ei adnabod yn y Cynllun ynghyd ag unrhyw safle sydd du allan i anheddle unigol a gaiff ei warchod ar gyfer diben penodol, e.e. safle rheoli gwastraff. Mae Atodiad 3A i 3Ch yn dangos y mapiau yma.

22. Diben y Mapiau Cyfyngiadau yw dangos lleoliad daearyddol ac ehangder ardaloedd a grëir gan ddeddfwriaeth neu broses y tu allan i broses y cynllun datblygu. Er enghraifft, mae'n nodi’r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd. Bydd y Mapiau Cyfyngiadau felly’n casglu gwybodaeth sydd eisoes ar gael mewn dogfennau a/ neu wefannau eraill.

**Y CAMAU NESAF**

23. Bydd yn Uned yn ymgymryd â’r tasgau gweinyddol canlynol cyn gyrru’r ddogfen i gael ei hargraffu  a pharatoi’r fersiwn rhyngweithiol a fydd ar gael ar wefan y ddau Gyngor: darllen y Datganiad Ysgrifenedig er mwyn sicrhau cywirdeb a sicrhau cysondeb rhwng y ddwy iaith; yn ychwanegu’r atodiadau ffeithiol; paratoi’r crynodeb weithredo; a pharatoi fersiwn ‘dyn ar y stryd’ o’r Cynllun.

24. Pan fydd y Cynghorau yn ymgynghori ar y Cynllun Adnau, rhaid iddynt hysbysebu'r ymgynghoriad yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol

a hysbysu'r partïon hynny a nodwyd yn y Strategaeth Gynhwysedd Gymunedol (gan gynnwys ymgyngoreion statudol), a chaniatáu chwech wythnos i wneud sylwadau. Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys cyfathrebu gyda'r holl unigolion a'r sefydliadau sydd wedi eu cynnwys yng nghronfa ddata'r Cynllun, gan osod copïau o'r Cynllun Adnau ar wefan y Cyngor ac yn y lleoliadau Adnau, a chyhoeddi datganiadau i'r wasg sy'n ymwneud â'r mater hwn. Yn ogystal, bwriedir cynnal nifer o arddangosfeydd wedi'u staffio mewn lleoliadau strategol ar draws ardal y Cynllun.

25. Bydd y rhai sy'n gwneud sylwadau ar y Cynllun Adnau yn cael eu hannog i wneud hynny ar ffurflen safonol, gan nodi'n glir unrhyw sylwadau cefnogol neu wrthwynebus. Bydd hefyd yn ofynnol i wrthwynebwyr ddangos pa brawf (brofion) o gadernid y Cynllun yr ystyrir y methwyd eu cyfarch, a nodi pa newidiadau i'r Cynllun a ddymunir. Bydd y wybodaeth hon yn llywio ystyriaeth yr Arolygydd ynglŷn â chadernid y Cynllun, gan gynnwys y goblygiadau i'r arfarniad o gynaliadwyedd. Bydd fersiwn ryngweithiol ar-lein o'r Cynllun ar gael i annog cyflwyno unrhyw sylwadau ategol neu wrthwynebiadau'n uniongyrchol i'r gofrestr o sylwadau neu wrthwynebiadau. Bydd gwneud hynny'n cynorthwyo'r Cynghorau i ddadansoddi'r sylwadau yn brydlon.

26. Rhaid i'r holl sylwadau a dderbynnir gan y Cyngor sy'n ceisio newid y Cynllun Adnau drwy ychwanegu safle newydd, neu drwy newid neu ddileu safle arfaethedig, gael eu hysbysebu gan y Cyngor cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori am y Cynllun Adnau, gan ganiatáu cyfnod pellach o chwech wythnos i wneud sylwadau arnynt. Rhagwelir y bydd yr ymgynghoriad ar y cam "safleoedd amgen" hwn yn cael ei wneud yn ystod Chwefror a Mawrth 2015, gyda'r dyddiad penodol yn cael ei gadarnhau yn nes at yr amser.

**Argymhelliad**

27. Gofynnir i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Adran Rheoleiddio (Cyngor Gwynedd) a Phennaeth y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (Cyngor Sir Ynys Môn) i wneud man newidiadau i'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb rhwng y ddwy iaith.

28. Gofynnir i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd gymeradwyo'r Cynllun Adnau drafft, yn ddarostyngedig i fan newidiadau, ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn cydymffurfio a gofynion deddfwriaeth.

29. Gofynnir i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Adran Rheoleiddio (Cyngor Gwynedd) a Phennaeth y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (Cyngor Sir Ynys Môn) i gymryd y camau priodol yn gysylltiedig a'r ymgynghoriad cyhoeddus am y Cynllun Adnau a dogfennau cysylltiol er mwyn cydymffurfio a gofynion deddfwriaeth.

**Atodiadau**

| | |
|---|---|
| Atodiad 1: | Cynllun Adnau drafft – beth olygir i ardal y Cynllun |
| Atodiad 2: | Datganiad Ysgrifenedig y Cynllun Adnau drafft |
| Atodiad 3A: | Mapiau cynigion y Cynllun Adnau drafft (Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol) |
| Atodiad 3B: | Mapiau cynigion y Cynllun Adnau drafft (Canolfannau Gwasanaeth Lleol a Phentrefi Gwasanaeth) |
| Atodiad 3C: | Mapiau cynigion y Cynllun Adnau drafft (Pentrefi Lleol/ Arfordirol/ Gwledig) |
| Atodiad 3Ch: | Mapiau cynigion y Cynllun Adnau drafft (Clystyrau a safleoedd du allan i aneddleoedd) |
| Atodiad 4: | Crynodeb o asesiadau amrywiol |